*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Sba Deintyddol Severnside

## Dyddiad yr Arolygiad: 15 Ebrill 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 8 | **Rhaid i IDH sicrhau bod gweithdrefn gwyno'r practis ar gyfer cleifion sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella'.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6.3) | Mae'r cod ymarfer newydd ar gyfer cwynion cleifion bellach wedi'i arddangos yn y practis.<br>Mae pob cwyn yn cael ei dogfennu yn y ffeil gwynion, ac yn cael ei chofnodi ar Clarity (y system ganolog fewnol).<br>Cynhelir cyfarfod staff gyda'r holl dîm er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth ynglŷn â'r broses yn gyfredol, ac i sicrhau bod yr holl dîm yn deall y broses. | Rheolwr y Practis | Cyfarfod staff ar 13 Gorffennaf |
| 9 | **Dylai IDH sicrhau bod ei wybodaeth ar-lein a'i wybodaeth ysgrifenedig yn cael ei** | Mae gwefan Mydentist yn cynnwys tudalen ar gyfer y practis sy'n dangos yr holl wybodaeth berthnasol. | Adran TG<br>Canolfan Gymorth | Wedi'u harchebu – bydd rheolwr y |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **diweddaru cyn gynted ag y bo modd, gan gynnwys Practis Severnside. Yn hyn o beth dylid ystyried anghenion cyfathrebu ac iaith gyntaf y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau Severnside.** (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3.2)<br><br>**Argymhellir bod y practis yn ystyried a datblygu dulliau newydd ar gyfer casglu adborth gan gleifion am eu profiadau, er mwyn rhoi dealltwriaeth glir i staff o'r hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Dylai'r practis ddangos ei fod yn gweithredu ar yr adborth hwn ac yn dysgu ganddo.** (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6.3) | Mae taflenni gwybodaeth i gleifion wedi cael eu harchebu, a bydd y rhain ar gael yn Gymraeg ar gais. Dylai rheolwr y practis sicrhau bod fersiynau Cymraeg ar gael ar y wefan.<br><br>Mae holiaduron cleifion yn cael eu dosbarthu, a rhoddwyd blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros er mwyn casglu adborth gan gleifion.<br><br>Mae negeseuon testun yn cael eu hanfon at gleifion i ofyn am adborth.<br><br>Bydd slot yn cael ei neilltuo yn y cyfarfod staff misol ar gyfer trafod ac adolygu adborth. | Rheolwr y Practis<br><br>Rheolwr y Practis<br><br>Tîm y Practis | practis yn archebu fersiynau Cymraeg erbyn 3 Gorffennaf.<br><br>Dylai rheolwr y practis sicrhau bod yr holl dîm yn cael ei hysbysu am y mater hwn yng nghyfarfod staff mis Gorffennaf. |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10 | **Dylid rhoi arwyddion rhybuddio digonol y tu allan i bob man radiograffig dynodedig** | Archebwyd arwyddion ymbelydredd ar gyfer pob man a reolir, ac yn y cyfamser mae arwyddion dros dro wedi'u harddangos er mwyn hysbysu am | Rheolwr y Practis | Mae arwyddion dros dro |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **yn y practis, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999.** (Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.1 a 2.9) | y risg o ymbelydredd | | wedi'u harddangos ac archebwyd arwyddion swyddogol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar 26 Mehefin 2015 |
| 10 | **Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant amddiffyn rhag pelydredd (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)) fod ar gael i'w harchwilio bob amser.** (Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.1) | Mae tystysgrifau hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd bellach ar gael yn y practis yn ffeiliau'r staff. | Pob aelod o staff wedi'u hyfforddi<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| 11 | **Dylai'r deintyddion ymarfer sicrhau eu bod yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol a argymhellir, a glynu at ganllawiau rheoli heintiau.**<br>**Gwnaethom argymell bod y practis yn** | Eisoes ar waith<br>Bydd pob aelod o staff yn darllen y polisi ar gyfarpar diogelu personol. | Rheolwr Practis<br>Nyrs Croes- | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **adolygu ei broses ddadheintio a'i brotocolau rheoli heintiau, ac yn atgoffa'r staff am y gweithdrefnau. Gwnaethom argymell bod gweithdrefnau fesul cam yn cael eu harddangos yn yr ystafell ddadheintio.** (Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.4 a 2.9) | Bydd gweithdrefnau clir i'w dilyn yn cael eu harddangos yn yr ystafell glanhau a sterileiddio offer deintyddol.<br>Cynhaliwyd cyfarfod staff ar 8 Mehefin 2015 er mwyn diweddaru gwybodaeth staff ar bob protocol a gweithdrefn.<br>Bydd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru yn cael ei gynnal cyn 1 Gorffennaf.<br>Bydd rheolwr y practis yn cwblhau hyfforddiant ar groes-heintio er mwyn iddi raeadru'r wybodaeth i'r tîm ym mis Gorffennaf/Awst trwy dîm y Ganolfan Gymorth. | heintio/Rheolwr y Practis i drefnu'r hyfforddiant gofynnol<br>Rheolwr y Practis/Nyrs Arwain<br>Tîm Cydymffurfio'r Ganolfan Cymorth | Cwblhawyd<br>1 Gorffennaf<br>Diwedd Awst |
| 11 | **Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gallu dangos pa awtoglaf sydd wedi cael ei wirio gan ymarferwyr deintyddol. Rydym yn argymell bod y practis yn defnyddio llyfrau cofnodion ar wahân at y diben hwn er mwyn osgoi dryswch.**<br>(Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.4 a 2.9) | Mae llyfrau cofnodion dyddiol ac wythnosol yn cael eu defnyddio.<br>Bydd yr arweinydd clinigol yn cynnal hapwiriadau bob wythnos er mwyn sicrhau cywirdeb.<br>Bydd hyn yn cael eu pwysleisio yn yr hyfforddiant ar groes-heintio. | Staff Clinigol/Rheolwr y Practis | yn parhau |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 12 | **Dylai'r practis sicrhau bod canllawiau'r gwneuthurwr ar gyfer storio meddyginiaeth a deunyddiau deintyddol yn cael eu dilyn ar bob adeg.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.6) | Mae'r holl feddyginiaethau'n cael eu storio mewn cwpwrdd o dan glo.<br>Mae pob cyffur a ragnodir yn cael ei ddyddio, ei gofnodi a'i lofnodi ar ffurflen cofnodi.<br>Bydd y mater hwn yn cael ei drafod eto yng nghyfarfod staff mis Gorffennaf, er mwyn sicrhau bod yr holl dîm yn ymwybodol o'r broses. | Deintydd<br>Staff y Practis<br>Rheolwr | Cyfarfod Staff ar 13 Gorffennaf |
| 12 | **Dylid cael gwared ar nodwyddau mewn ffordd ddiogel a heb oedi, yn syth ar ôl eu defnyddio.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2.6) | Mae rheolwr y practis wedi archebu system Ultra Safety Plus,<br>a fydd yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.<br>Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r holl dîm yn y cyfarfod staff nesaf er mwyn sicrhau bod | Deintydd a Nyrsys Deintyddol | Wedi eu harchebu<br><br>13 Gorffennaf |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | pawb yn ei defnyddio. | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 13-14 | *Dylai IDH gymryd camau amserol er mwyn dangos arweinyddiaeth effeithiol yn Sba Deintyddol Severnside. Er enghraifft:* | | | Yn parhau |
| | • **Mae gan gleifion yr hawl i wybod am y cwmni rheoli sy'n rhedeg y gwasanaeth.** | Hysbysir cleifion ar lafar, pan fyddant yn dod am apwyntiad, mai IDH yw perchnogion Practis Deintyddol Severnside. | Tîm y Practis | |
| | • **Dylid diffinio'n eglur y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau rheoli ac arwain y gwahanol aelodau o staff y practis a chyfrifoldebau'r sefydliad.** | Dylai rheolwr y practis sicrhau bod y plac sy'n nodi perchennog y practis yn cael ei arddangos – os oes angen dylid archebu un newydd gan y gwasanaeth cyfleusterau. | Rheolwr y Practis/Gwasanaeth Cyfleusterau | 7 Gorffennaf |
| | (Yn hyn o beth argymhellir bod IDH yn ystyried y Safonau Iechyd a Gofal ar gyfer llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn Sba Deintyddol Severnside). | | | |
| 14 | **Rhaid gosod tystysgrifau cofrestriad gydag AGIC mewn lle amlwg yn y practis (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Safonau** | Mae pob tystysgrif cofrestriad ar gyfer IDH wedi cyrraedd, ac maent bellach wedi'u harddangos yn ystafelloedd triniaeth y gwahanol glinigwyr. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Gofal 2000 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008)**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 7.1) | | | |
| 14 | **Dylai IDH sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i Bractis Severnside yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau Cymru, mewn ffordd briodol.**<br>(Llywodraethu ac Atebolrwydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Rydym yn sylweddoli bod deddfwriaeth Lloegr a Chymru'n wahanol, felly byddwn bob amser yn ystyried hynny.<br>Mae tîm cydymffurfio'r cwmni a'r cyfarwyddwyr clinigol wedi adolygu'r polisïau a'u haddasu er mwyn bodloni rheoliadau Cymru.<br>Bydd y rhain ar gael ar gyfer pob practis yng Nghymru cyn bo hir.<br>Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael trwy'r bwrdd iechyd lleol. | Tîm Clinigol/Tîm y Practis | Yn parhau<br>Diwedd |
| 15 | **Rydym wedi argymell bod y practis yn gwella'r dulliau ar gyfer cofnodi cwynion ffurfiol a chwynion anffurfiol. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg, ac i ddysgu gan y rhain a'u defnyddio i wella gwasanaethau.**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6.3) | Mae pob cwyn ffurfiol yn cael ei chofnodi mewn ffeil gwynion, sy'n cael ei diweddaru bob amser. Mae cwynion hefyd yn cael eu cofnodi ar system gwynion yn  Clarity IDH, ac yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen | Rheolwr y Practis | yn parhau |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| 17 | **Argymhellir bod IDH yn adolygu'r dull o storio cofnodion cleifion yn yr archif, a chymryd camau er mwyn gwella diogelwch y cyfleuster storio ar gyfer y broses hon**<br>(Safon Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3.5) | Byddwn yn dweud wrth y brif swyddfa bod angen adeilad mwy diogel er mwyn storio cofnodion cleifion. | Hysbyswyd y Brif Swyddfa | Yn parhau |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .........HEATHER OWEN

**Teitl:** ..........RHEOLWR Y PRACTIS

**Dyddiad:** ..................22 Mehefin 2015